CYNGOR SIR
YNYS MÔN

GWASANAETH MAETHU

DATGANIAD O DDIBEN

Dyddiad yr Adolygiad Diwethaf
16/7/2021 - LLBR

Cyflwyniad i Ddatganiad o Ddiben y Gwasanaeth Maethu

Mae Gwasanaeth Maethu Cyngor Sir Ynys Môn wedi cynhyrchu "Datganiad o Ddiben" yn unol â Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018.

Mae RHAN 2 (5) y rheoliadau yn manylu ar y gofynion i adolygu'r Datganiad o Ddiben ac i ddarparu'r ddogfen i randdeiliaid perthnasol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Cod Ymarfer ar gyfer Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol, ac mae'n rhoi mwy o fanylion am ofynion pellach ynghylch y cynnwys a'r trefniadau ar gyfer adolygu'r Datganiad o Ddiben.

Yn unol â gofynion Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018, mae'r Datganiad o Ddiben yn darparu gwybodaeth am Wasanaeth Maethu Cyngor Sir Ynys Môn. Mae'r Datganiad o Ddiben yn cynnwys manylion am y strwythur rheoli a staffio, ystod anghenion y plant y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer, a sut mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu er mwyn diwallu anghenion plant a'u cynorthwyo i gyflawni eu canlyniadau personol. Bydd y Datganiad o Ddiben ar gael i weinidogion Cymru, rheoleiddwyr, gofalwyr maeth cymeradwy a darpar ofalwyr maeth, unrhyw blentyn a leolir gan y gwasanaeth maethu, rhieni unrhyw blentyn o'r fath, personau sy'n gweithio at ddibenion gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol ac unrhyw berson arall, ar gais.

Y ddeddfwriaeth/polisïau allweddol sy'n llywodraethu gwaith y gwasanaeth maethu yw:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Safonau Gofal 2000
- Cod Ymarfer Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol 2019
- Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2018
- Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Gofal (Cymru) 2015
- Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018
- Deddf Plant 1989
- Deddf Plant 2004
- Deddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Safonau Cenedlaethol y Deyrnas Unedig ar gyfer Gofal Maeth 1999
- Cod Ymarfer ar Recriwtio, Asesu, Cymeradwyo, Hyfforddi, Rheoli a Chefnogi Gofalwyr Maeth 1999
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Polisi a Gweithdrefnau Gwasanaethau Plant Cyngor Sir Ynys Môn a pholisïau a gweithdrefnau mewnol eraill yn ymwneud â gwaith Plant a Theuluoedd.

Yn ogystal â'r Datganiad o Ddiben, mae ystod o ddogfennau penodol a gweithdrefnol sy'n cefnogi'r nodau, amcanion, egwyddorion gwasanaeth a'r safonau a nodir ar gyfer y gwasanaeth maethu. Byddwn yn diweddaru ein Datganiad o Ddiben yn flynyddol, neu'n gynharach, os gwneir unrhyw newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir.

CYNNWYS

Adran 1 Strwythur rheoli a staffio'r Gwasanaeth Maethu

Adran 2 Ar gyfer pwy ydym yn darparu'r gwasanaeth maethu?

Adran 3 Sut ydym yn recriwtio ein gofalwyr maeth

Adran 4 Beth ydym yn ei wneud i gefnogi ein plant a'n gofalwyr maeth

Adran 5 Sut ydym yn ymgynghori â'n plant a'n gofalwyr maeth

Adran 6 Manylion cyswllt defnyddiol

Adran 1

Strwythur rheoli a staffio'r gwasanaeth maethu

Mae gwasanaeth maethu Cyngor Sir Ynys Môn yn rhan o'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, a leolir yn Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn. Mae'r Gwasanaeth o dan arweiniad y Cyfarwyddwr Gwasnaethau Cymdeithasol.

Mae'r gwasanaeth maethu'n darparu'r ystod lawn o wasanaethau lleoli teuluoedd, gan gynnwys maethu, gofal seibiant (egwyl fer), ac mae'n cynnwys gweithio gyda darparwyr annibynnol i gomisiynu lleoliadau ar gyfer anghenion penodol a nodir. Ble mae anghenion yn cael eu nodi nad oes modd eu diwallu o fewn y Gwasanaeth Maethu, bydd y Tîm yn cydgysylltu â darparwyr annibynnol i gomisiynu'r lleoliad gorau sydd ar gael i ddiwallu anghenion y plentyn.

Mae Rheolwyr y Gwasanaeth yn cynnwys:

- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, **Fôn Roberts**
- Pennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, **Fôn Roberts**
- Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer y gwasanaeth maethu, **Llŷr Bryn Roberts**
- Arweinydd Ymarfer ar gyfer y gwasanaeth maethu, **Keith Walters**

Mae trafodaeth ynghylch sut y byddwn yn parhau i gryfhau gwaith y gwasanaeth maethu yn mynd rhagddi gyda staff, plant a phobl ifanc a gofalwyr maeth drwy gyfrwng cyfarfodydd tîm, grŵp ymgynghori yr ydym yn ei ddatblygu gyda Voices from Care a thrwy Fforwm Gofalwyr Maeth Môn.

Strwuthur staffio'r gwasanaeth

Mae holl staff y gwasanaeth maethu yn weithwyr dwyieithog a gyflogir gan Gyngor Sir Ynys Môn ac o'r herwydd mae ganddynt yr un hawliau, cyfrifoldebau a buddion ag unrhyw un o weithwyr y cyngor. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn hyrwyddo llesiant ei weithwyr drwy gyfrwng nifer o gynlluniau, sydd ar gael i staff, megis:

- Cynllun gweithio hyblyg
- Polisi gweithio hyblyg
- Polisi Absenoldeb Gofalwyr
- Polisi Absenoldeb Anabledd
- Polisi Seibiant Gyrfa
- Polisi Ymddeol yn Hyblyg
- Cynllun prynu gwyliau blynyddol ychwanegol
- Calendr blynyddol o ddigwyddiadau llesiant amrywiol / cyfeirio at wybodaeth
- Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol a Ffisiotherapi
- Gwasanaeth Cwnsela Hunanatgyfeirio

Ar hyn o bryd mae strwythur staffio'r gwasanaeth maethu'n cynnwys swyddi gweithwyr cymdeithasol cymwys a swyddi heb gymhwyster, yn cynnwys swyddi rhan amser a llawn amser:

Arweinydd Ymarfer x 1 llawn amser
Gweithiwr Cymdeithasol x 4 llawn amser
Gweithiwr Cymdeithasol x 1 rhan-amser (0.40)
Swyddog Recriwtio a Lleoli x 1 llawn amser
Gweithiwr Cymorth Personau x 2 llawn amser

Mae pob gweithiwr cymdeithasol cymwys yn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru a darperir cyfleoedd hyfforddi er mwyn cynnal eu cofrestriad, bodloni gofynion rheoleiddiol a hyrwyddo

datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae staff mewn rolau eraill yn derbyn cyfleoedd dysgu a datblygu er mwyn datblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth yn eu rolau presennol ac i hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus er mwyn symud i rolau eraill, megis y cynllun hyfforddeion gwaith cymdeithasol.

Nodau ac amcanion y gwasanaeth maethu

Mae'r gwasanaeth maethu yn benderfynol o ddarparu gwasanaeth rhagorol i bob plentyn sydd mewn gofal maeth a safonau gofal sydd yn cwrdd â'u hanghenion neu'n rhagori arnynt. Rydym yn cydnabod bod gofal maeth yn hanfodol bwysig fel cyfrwng ar gyfer trawsnewid bywydau plant mewn gofal cyhoeddus. Mae gofalwyr maeth yn gwneud cyfraniad gwerthfawr iawn ac o'r herwydd dylid eu paratoi, a darparu hyfforddiant a chefnogaeth o'r radd flaenaf ar eu cyfer i'w galluogi i gyflawni eu rôl i'r eithaf. Fel Rhiant Corfforaethol cyfrifol, rydym wedi ymrwymo i wrando ar lais pob plentyn a pherson ifanc, asesu eu hanghenion a chynllunio'n gynhwysfawr i gwrdd â'r anghenion hynny. Bydd y gwasanaeth maethu'n gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth â theuluoedd, gofalwyr maeth, cydweithwyr yn y Cyngor Sir, ac asiantaethau eraill i sicrhau'r gofal a'r gefnogaeth gorau posibl i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Nod y gwasanaeth maethu yw

(a) Sicrhau lleoliad sefydlog, wedi'i gynllunio'n dda ac o'r safon uchaf i bob plentyn sydd mewn gofal maeth er mwyn gwella eu cyfleoedd bywyd.

(b) Sicrhau bod y Gwasanaeth yn ymateb i anghenion plant sydd angen lleoliad maeth, gan recriwtio digon o ofalwyr maeth i gynnig dewis.

(c) Darparu cefnogaeth a gwasanaeth rhagorol i ofalwyr maeth, gan staff, rheolwyr a staff cymorth gweinyddol profiadol, sgilgar a chymwys.

(d) Darparu llwybr dilyniant ar gyfer gofalwyr maeth i'w cefnogi i ystyried maethu plant sydd yn fwy heriol ac yn anoddach i'w lleoli.

I gyflawni'r nodau hyn rydym wedi mabwysiadu'r amcanion canlynol:

- Sicrhau, lle bo modd, bod plant yn cael eu magu gan eu rhieni.
- Os nad yw hynny'n bosibl byddwn yn edrych ar y teulu ehangach: gan gefnogi plant a phobl ifanc i aros gydag oedolion y maent yn eu hadnabod ac yn ymddiried ynddynt os na allant fyw gyda'u rhieni am ba bynnag reswm.
- Darparu lleoliadau sefydlog, wedi'u cynllunio'n dda ac o'r safon uchaf i gwrdd ag anghenion plant a gwella eu canlyniadau.
- Sicrhau bod plant yn cael eu magu mewn amgylchedd diogel, cariadus sy'n gofalu am eu hanghenion datblygu.
- Ystyried dymuniadau a theimladau'r plentyn/person ifanc, ac annog y plentyn/person ifanc i gymryd rhan mewn penderfyniadau ynglŷn â'u gofal.
- Darparu lleoliadau lleol i sicrhau cysondeb a chynnal rhwydweithiau teuluol lle bo modd.
- Sicrhau bod plant yn gallu mwynhau eu plentyndod, ac elwa o riantu ac addysg ardderchog, a mwynhau pob math o gyfleoedd i ddatblygu eu talentau a'u sgiliau i'w galluogi i fyw bywyd llwyddiannus pan fyddant yn oedolion.
- Hyrwyddo lleoliadau sefydlog a chyson ym mhob ffordd posibl er mwyn sicrhau profiad maethu sefydlog i'r plentyn/person ifanc.
- Gwerthfawrogi pob plentyn fel unigolyn a bydd pob lleoliad yn cwrdd â gofynion cynllun gofal y plentyn a lle bo modd yn adlewyrchu hil a chefndir diwylliannol, crefyddol ac ieithyddol y plentyn.
- Lleoli brodyr a chwiorydd gyda'i gilydd lle bo modd, i gyd-fynd â'u hanghenion.
- Cydnabod ac ystyried anghenion penodol plant anabl a phlant ag anghenion cymhleth yn llawn.
- Gwerthfawrogi pwysigrwydd cyswllt ar gyfer plant sydd mewn gofal, a chynnal perthynas gadarnhaol gyda rhieni geni, teulu estynedig a phobl eraill sydd yn bwysig ym mywyd y plentyn, yn ogystal â rôl y gofalwr maeth yn hyn oll.
- Galluogi i bobl ifanc aros gyda'u teulu maeth ar ôl eu pen-blwydd yn ddeunaw oed hyd nes eu bod yn 21 oed cyn belled bod hyn er lles y person ifanc a bod y gofalwyr maeth yn llwyr

gytûn.

- Hyrwyddo cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n Derbyn Gofal a galluogi i ofalwyr maeth gysylltu â'r Swyddog Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal i helpu i wella cyrhaeddiad addysgol y bobl ifanc sydd dan eu gofal.
- Sicrhau dewis amrywiol o leoliadau er mwyn cwrdd ag anghenion gwahanol blant a phobl ifanc wrth eu lleoli.
- Bod yn rhagweithiol o ran sicrhau sefydlogrwydd i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal drwy gefnogi gofalwyr maeth i ymgeisio am Orchymyn Gwarchodaeth Arbennig. Trwy wneud hyn, gellir cwrdd ag angen y plentyn am berthynas cyfreithiol diogel gyda'u gofalwr ac ni fyddant dan ofal yr awdurdod lleol wedi hynny.

Adran 2

Ar gyfer pwy ydym yn darparu gwasanaeth maethu?

Mae gwasanaeth maethu Cyngor Sir Ynys Môn yn ceisio darparu gofal o safon ragorol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Rydym yn recriwtio ac yn cymeradwyo gofalwyr maeth lleol ac rydym yn eu cynorthwyo i ddarparu cartref sefydlog a gofalgar ar gyfer unrhyw blant nad ydynt yn gallu derbyn gofal gan eu teulu, gan gynnwys plant ar eu pen eu hunain sy'n geiswyr lloches. Ein nod yw bod â gofalwyr maeth o safon uchel a phrofiadol sy'n canolbwyntio ac yn rhoi blaenoriaeth i gadw plant yn lleol wrth ddiwallu eu hanghenion diwylliannol, ieithyddol, addysgol, cymdeithasol, corfforol ac emosiynol ac sy'n ymdrechu'n gyson i wella eu canlyniadau.

Mae ein gofalwyr maeth yn cael eu cymeradwyo i ofalu am blant rhwng 0 a18 oed, dros dro, hyd nes y gallant ddychwelyd adref at aelodau eu teulu, neu'n barhaol hyd nes bydd y plant yn dod yn oedolion. Mae teulu a ffrindiau sy'n cael eu cymeradwyo fel gofalwyr maeth personau cysylltiedig yn gofalu am blant penodol.

Mae'r tîm yn yn ymwneud ag adolygu cynlluniau sefydlogrwydd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal y mae eu teulu'n gofalu amdanynt a phlant sy'n byw â rheini tra eu bod yn parhau i fod ar orchymyn gofal, a ffrindiau drwy ddatblygu trefniadau gwarcheidiaeth arbennig.

Yn ogystal, mae'r gwasanaeth maethu'n cefnogi pobl ifanc i aros gyda'u teulu maeth ar ôl iddynt droi'n 18 oed drwy drefniadau 'Pan Fydda i'n Barod'.

Mae gan bob plentyn ei anghenion unigol ei hun a nod cyffredinol y gwasanaeth maethu yw sicrahu bod plant a phobl ifanc yn byw mewn amgylchedd sy'n eu cadw'n ddiogel rhag camdriniaeth ac esgeulustod, ac sy'n hyrwyddo eu lles emosiynol a chorfforol a'u datblygiad addysgol.

Adran 3

Sut rydym yn recriwtio ein gofalwyr maeth

Er mwyn darparu gwasanaeth lleol, sydd yn diwallu anghenion plant Ynys Môn ac yn eu cynorthwyo i gyflawni eu canlyniadau personol, rydym yn anelu i recriwtio ystod o ofalwyr a'u cynorthwyo i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau i ddeall anghenion y plant a sut i ofalu amdanynt.

Mae gwasanaeth maethu Cyngor Sir Ynys Môn yn aelod o Maethu Cymru – Foster Wales, cydweithrediad rhwng yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru sydd â'r nod o gydweithio i hyrwyddo maethu a denu ymholiadau gan ddarpar ofalwyr maeth addas. Fel gwasanaeth maethu, rydym yn ceisio recriwtio digon o deuluoedd maethu er mwyn caniatáu i ni baru plant â'r teulu maeth cywir. Mae'r gwasanaeth maethu'n gwerthfawrogi'r cyfle i weithio â'r gymuned leol a busnesau lleol er mwyn ymgysylltu pobl ifanc yn y broses recriwtio.

Gellir derbyn ymholiadau ynghylch maethu drwy'r wefan, e-bost neu alwad ffôn uniongyrchol, ac mewn person mewn digwyddiadau recriwtio. Rydym yn anelu i ddarparu gwybodaeth am faethu ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn i bawb sy'n gwneud ymholiadau cychwynnol o fewn un diwrnod gwaith, gan ddilyn hynny lle bo'n briodol, gyda chynnig o ymweliad cychwynnol. Os yw ymgeiswyr yn dymuno symud ymlaen ymhellach a bod hynny'n briodol, byddwn yn gwahodd darpar ofalwyr i fynychu ein hyfforddiant cyn cymeradwyo, sef Sgiliau ar gyfer Maethu. Dod yn ofalwr maeth cymeradwy yw cychwyn y daith ac rydym yn deall bod angen gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i wneud y penderfyniad i faethu, ac rydym yn anelu i ddarparu hyn bob cam o'r ffordd.

Mae'r awdurdod lleol yn ceisio bod yn gyflogwr cynhwysol a chyfeillgar i deuluoedd maeth ac, o'r herwydd, gellir defnyddio ein Polisi Absenoldeb Gofalwyr ac Absenoldeb Arbennig mewnol ar gyfer yr amser i ffwrdd o'r gwaith sy'n angenrheidiol ar gyfer maethu (gan gynnwys cyrsiau hyfforddi perthnasol), ar gyfer y gofalwyr maeth hynny sydd hefyd yn cael eu cyflogi gan Gyngor Sir Ynys Môn.

Mae gan wasanaeth maethu cyngor Sir Ynys Môn weithwyr cymdeithasol aseswyr profiadol i gynnal ein hasesiadau maethu a dynodir gweithiwr cymdeithasol asesu i bob darpar ofalwr maeth. Cynhelir yr holl asesiadau maethu yn unol â Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018 ac mae'n cynnwys gwiriadau statudol, asesiadau meddygol, geirdaon cyflogaeth a phersonol, fydd yn cael eu cwblhau ar gyfer pob ymgeisydd. Bydd angen gwiriadau GDG (DBS) hefyd ar gyfer unrhyw oedolyn arall sy'n byw yn y cartref. Rydym yn rhannu'r adroddiad asesu wedi'i gwblhau â'r darpar ofalwr/ofalwyr maeth a roddir cyfle iddynt gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ar y broses a'r adroddiad terfynol.

Os daw unrhyw wybodaeth i'r amlwg yn ystod yr asesiad a fyddai'n golygu na fernir bod yr ymgeiswyr yn addas i fod yn ofalwyr maeth, fe'u hysbysir yn ysgrifenedig, yn unol â gofynion Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018.

Fel gwasanaeth maethu rydym yn anelu i fod yn rhagweithiol wrth gefnogi gofalwyr maeth i drosglwyddo o asiantaethau maethu eraill ac mae ein holl waith gyda phlant a phobl ifanc yn canolbwyntio ar wella eu canlyniadau. Mae cael mwy o ofalwyr maeth sy'n lleol ac sy'n byw yn ardal yr awdurdod lleol yn rhoi mwy o gapasiti i ni baru plant yn gadarnhaol gyda'n gofalwyr, gan alluogi iddynt aros yn agos at eu cymdogaethau.

Gwahoddir ymgeiswyr i fynychu'r Panel Maethu a Sefydlogrwydd gyda'u hasesydd pan gyflwynir eu hadroddiad gan eu gweithiwr cymdeithasol asesu. Rydym yn anelu i wneud y profiad o fynychu'r panel mor gyfforddus â phosib a rhoi cyfle i ymgeiswyr gyfrannu at y drafodaeth, yn ogystal â gofyn cwestiynau eu hunain. Bydd y Panel yn gwneud argymhelliad fydd yn cael ei ystyried gan Benderfynwr yr Asiantaeth. Bydd ymgeiswyr yn derbyn cadarnhad o ganlyniad eu cais i fod yn ofalwyr maeth drwy lythyr.

Mae'r gwasanaeth maethu'n cynnal yr asesiadau sy'n angenrheidiol o dan reoliad 26 Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Gofal (Cymru) 2015 ar gyfer lleoli plant ar unwaith gyda theuluoedd a ffrindiau sy'n wybyddus iddynt.

Pe byddai angen gwneud trefniadau amgen, cynhelir asesiadau personau cysylltiedig ar aelodau o'r teulu neu ffrindiau a nodir fel gofalwyr posib ar gyfer plant cyn, neu yn ystod, achosion cyfreithiol. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth maethu hefyd yn cynnal asesiadau hyfywedd ar y cyd â gweithiwr cymdeithasol y plentyn.

Panel Maethu a Sefydlogrwydd

Sefydlwyd y panel hwn i fodloni gofynion Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018. Mae'n ystyried argymhellion yngylch cymeradwyo gofalwyr maeth, ac mae'n goruchwylio'r gwaith o asesu ac adolygu gofalwyr y Gwasanaeth, ac mae'n cyfarfod yn fisol.

Mae gan y Panel 10 o aelodau, yn cynnwys:

- Cadeirydd – mae gan y panel gadeirydd annibynnol.

- Gofalwr Maeth Annibynnol
- 2 Aelod Annibynnol sydd â phrofiad o faethu a/neu ofal maeth.
- Un o Gynghorwyr Cyngor Sir Ynys Môn
- Aelod annibynnol
- Dau weithiwr cymdeithasol, un â chefndir o leoliadau teuluol, ac un â chefndir mewn gofal plant
- Cynrychiolydd iechyd
- Cynrychiolydd addysg, ac
- Ymgynghorydd y Panel, wedi ei ddynodi o'r Gwasanaeth Maethu
- Ymgynghorydd cyfreithiol i'r Panel

Mae aelodaeth y Panel yn mynd tu hwnt i'r gofynion sylfaenol a nodir yn y rheoliadau.

Adran 4

Beth ydym yn ei wneud i gefnogi ein plant a'n gofalwyr maeth

Mae gwasanaeth maethu Cyngor Sir Ynys Môn yn darparu ystod o fentrau cymorth ar gyfer gofalwyr maeth newydd a phrofiadol er mwyn eu cynorthwyo a'u cefnogi i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc Ynys Môn.

Hyfforddiant paratoadol

Mae'n rhaid i ymgeiswyr fynychu cwrs hyfforddi paratoadol. Os yw cyplau'n ymgeisio, mae disgwyl i'r ddau bartner fynychu'r hyfforddiant. Rydym yn defnyddio'r hyfforddiant a argymhellir, sef hyfforddiant *Sgiliau ar gyfer Maethu* a ddarperir gan Y Rhwydwaith Maethu. Cynhelir grwpiau hyfforddi oddeutu dwywaith y flwyddyn, yn dibynnu ar nifer yr ymgeiswyr, ac mae'n cael ei gynnal dros dri diwrnod (cwrs un diwrnod yw'r Hyfforddiant Paratoadol arbenigol ar gyfer Personau Cysylltiedig). Mae'r pynciau sylfaenol y rhoddir sylw iddynt fel a ganlyn:

- Sesiwn 1: Beth mae gofalwyr maeth yn ei wneud?
- Sesiwn 2: Hunaniaeth a chyfleoedd bywyd
- Sesiwn 3: Gweithio gydag eraill
- Sesiwn 4: Deall a gofalu am blant
- Sesiwn 5: Gofal mwy diogel
- Sesiwn 6: Pontio

Goruchwyliaeth a Chymorth

Dynodir gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol i bob teulu maethu a fydd yn cynnal ymweliadau cartref a rhithwir (ar-lein), goruchwyliaeth a chegfnogaeth i'r teulu maeth. Gall gofalwyr maeth gysylltu â'u gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol rhwng ymweliadau os oes angen, a gellir cynnal cyswllt ac ymweliadau'n fwy aml pan fydd angen cymorth ychwanegol arnynt.

Bydd goruchwyliaeth ffurfiol yn digwydd bob tri mis rhwng y gofalwr/gofalwyr maeth a'r gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol (yn iaith ddewisol y gofalwr maeth), oni bai y cytunir yn wahanol gyda'r gofalwr. Cedwir cofnod ffurfiol o oruchwyliaeth ac mae'r cofnod yn cael ei lofnodi gan y Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol a'r gofalwyr maeth. Bydd goruchwyliaeth yn cynorthwyo i atgyfnerthu unrhyw ddysgu o ganlyniad i hyfforddiant, darparu cyfle i fyfyrio ar y rôl maethu a nodi unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen ar y plentyn a'r teulu maeth.

Bydd y gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol yn cwblhau Adolygiad Gofalwr Maeth o leiaf unwaith y flwyddyn. Mae adolygiadau blynyddol yn rhoi cyfle i'r gofalwyr maeth, eu teulu, y plant y maent yn gofalu amdanynt a'r gweithwyr cymdeithasol i fyfyrio ar y 12 mis blaenorol fel gofalwyr maeth. Bydd panel maethu Cyngor Sir Ynys Môn yn ystyried adroddiadau'r adolygiadau blynyddol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Adolygiad blynyddol cyntaf

- Gwneir cais i newid statws y gymeradwyaeth
- Os bydd unrhyw newid sylweddol yn yr aelwyd sy'n maethu
- Bob trydedd blwyddyn os na fu unrhyw newid, fel swyddogaeth sicrhau ansawdd
- Ar ôl cwblhau ymchwiliad adran 47 lle gwnaed honiad yn erbyn aelod(au) o'r aelwyd faethu

Bydd y panel maethu yn gwneud argymhelliad ynghylch parhau i gofrestru'r gofalwr/gofalwyr maeth, gan gynnwys unrhyw newid i statws eu cymeradwyaeth. Mae croeso i ofalwyr maeth fynychu'r panel maethu gyda'u gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol i gyfrannu at y drafodaeth a gofyn unrhyw gwestiynau. Mae'r panel maethu'n awyddus bod gofalwyr maeth yn derbyn y sylwadau cadarnhaol a wneir gan aelodau'r panel wrth ystyried eu hadolygiad gofalwr maeth.

Dysgu, Datblygu a Grwpiau Cymorth

Darperir cyfleoedd dysgu a datblygu drwy ddulliau amrywiol, megis hyfforddiant ffurfiol, sesiynau 1:1 gyda'u gweithiwr cymdeithasol, mynediad at adnoddau ar-lein er mwyn derbyn gwybodaeth a dysgu, a grwpiau cymorth.

Cynigir rhaglen dreigl o hyfforddiant i ofalwyr maeth sy'n rhoi sylw i bynciau craidd hafodol sy'n angenrheidiol er mwyn darparu gwasanaeth medrus. Rhoddir cyfle hefyd i ofalwyr ennill cymhwyster City & Guilds - Iechyd a Gofal Cymdeithasol Plant Lefel 3.

Mae'r gwasanaeth maethu'n cynnal sesiynau 'Coffi a Chacen' chwarterol, sef bore coffi gyda chyfleoedd dysgu. Mae hwn yn grŵp cymorth sydd ar gael i ofalwyr maeth prif lif a phersonau cysylltiedig ac mae siaradwyr yn mynychu'r grŵp i ddarparu gwybodaeth a chyngor.

Bob blwyddyn, rydym yn cynnal y gystadleuaeth bobi flynyddol, y 'Bake Off', yn ystod y Bythefnos Gofal Maeth, lle mae staff y Cyngor a gofalwyr maeth yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth goginio, ac mae'r holl arian a godir yn mynd tuag at Gymdeithas Gofal Maeth Ynys Môn. Mae Cymdeithas Gofal Maeth Ynys Môn yn elusen sy'n cael ei rhedeg gan ofalwyr maeth Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer holl ofalwyr maeth awdurdod lleol Ynys Môn.

Cynhelir Fforwm Gofal Maeth Ynys Môn yn chwarterol er mwyn rhoi llais ffurfiol i bob gofalwr maeth yn natblygiad y gwasanaeth maethu. Mae'n anelu i hwyluso cyfathrebu ac ymgynghori rheolaidd gyda gofalwyr maeth er mwyn gwella a datblygu'r gwasanaeth maethu ar Ynys Môn yn barhaus. Gwahoddir pob gofalwr maeth prif lif a gofalwyr maeth personau cyswllt i fynychu cyfarfodydd y fforwm a gall cyfranogwyr eraill gynnwys gweithwyr cymdeithasol a rhai o'r uwch reolwyr.

Rydym hefyd yn cyfathrebu â'n gofalwyr maeth drwy gylchlythyr misol sy'n cynnwys gwybodaeth gyfredol ynghylch cyfleoedd dysgu a datblygu ar gyfer ein gofalwyr.

Mae Cadeirydd Cymdeithas Gofal Maeth Ynys Môn yn aelod o Banel Rhiant Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn sydd yn cyfarfod bob chwarter. Gall y Cadeirydd rannu profiad uniongyrchol o faethu gydag aelodau eraill y Panel, gan gynnwys y rôl ofalu gadarnhaol sylweddol y gall ein gofalwyr maeth ei darparu ar gyfer plant lleol.

Fel cydnabyddiaeth am y gwaith rhagorol a wneir gan ein gofalwyr maeth, mae'r Cyngor yn cynnal digwyddiad dathlu gofalwyr maeth bob dwy flynedd, lle mae aelodau etholedig ac Uwch Dîm Arweinyddiaeth yr awdurdod lleol yn cydnabod gofalwyr maeth ac yn diolch iddynt.

Cymorth Ariannol

Rhoddir cymorth ariannol i ofalwyr maeth ofalu am blentyn a hynny drwy lwfans maethu wythnosol i gwrdd â chost gofalu am blentyn a ffi lleoliad wythnosol ar gyfer y gofalwr maeth. Darperir y lwfans maethu a'r ffi lleoliad ar gyfer pob plentyn a leolir gyda'r gofalwr/gofalwyr maeth ac maent yn amrywio yn ôl oedran y plentyn. Pennir lwfansau maethu gan ddefnyddio argymhellion Llywodraeth Cymru ar gyfer Isafswm Lwfans Maethu Cenedlaethol. Diweddarir gwybodaeth am ffioedd a lwfansau a chymorth ariannol arall ar ddechrau blwyddyn ariannol newydd, ac mae'r

wybodaeth yn cael ei dosbarthu i bob gofalwr maeth.

Yn ystod 2019, cytunodd Cyngor Sir Ynys Môn i wella'r pecyn o ran lwfansau a buddiannau gofalwyr maeth fel cydnabyddiaeth am y rôl heriol yr oeddent yn ei chyflawni. Y pecyn cynhwysfawr o fuddion y cytunwyd arno o fis Ebrill 2019 oedd:

- Cynnydd o 10% yn y lwfans maethu fesul plentyn;
- Gostyngiad o 50% yn y Dreth Gyngor;
- Darparu Cerdyn Aelodaeth Gwasanaethau Hamdden Cyngor Sir Ynys Môn yn rhad ac am ddim;
- Darparu tocyn parcio rhad ac am ddim ar gyfer meysydd parcio'r Cyngor.

Roedd hyn yn caniatáu i ofalwyr maeth a phlant sy'n derbyn gofal gael mynediad at weithgareddau hamdden a chwaraeon mewn unrhyw un o ganolfannau hamdden yr awdurdod lleol ar yr ynys, am bris gostyngol i aelodau, ac mae modd iddynt fanteisio hefyd ar gynigion megis y sesiynau nofio rhad ac am ddim i deuluoedd. Mae hyn yn hyrwyddo iechyd a llesiant Gofalwyr Maeth a'r plant y maent yn gofalu amdanynt er mwyn iddynt fyw bywyd iachach.

Telir costau teithio i ofalwyr maeth am gludo plant i'r ysgol, apwyntiadau iechyd, cyswllt ac ati. Mae gan wasanaeth maethu Cyngor Sir Ynys Môn ganllawiau ysgrifenedig clir ar gyfer hawlio costau.

Mae gwasanaeth maethu Cyngor Sir Ynys Môn yn darparu cyfarpar i ofalwyr maeth, megis dodrefn ystafell wely, coetsis a seti car er mwyn gofalu am blentyn. Byddwn yn gweithio gyda chydweithwyr Iechyd i sicrhau bod plant sydd ag anabledd yn derbyn y cyfarpar sydd ei angen arnynt yn eu cartref maeth. Mae gan y gwasanaeth maethu ganllawiau ysgrifenedig clir ynghylch pa gyfarpar a ddarperir i ofalwyr maeth.

Cymorth ychwanegol

Yswiriant cynnwys y cartref – mae gan Gyngor Sir Ynys Môn bolisi yswiriant ar gyfer yr holl ofalwyr maeth sydd wedi cofrestru â'r Awdurdod Lleol.

Gofal seibiant – Mae gwasanaeth maethu Cyngor Sir Ynys Môn yn recriwtio gofalwyr maeth seibiant i ddarparu cymorth i'r gofalwr maeth a'r plentyn, os yw hynny'n addas ar gyfer y plentyn.

Cymorth ffôn tu allan i oriau – mae'r Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Tu Allan i Oriau ar gael i ofalwyr maeth tu allan i oriau swyddfa arferol.

Gwasanaeth Cwnsela Gofalwyr Maeth – fel rhan o'n hymrwymiad i iechyd a lles gofalwyr maeth, mae'r gwasanaeth maethu'n gweithio ar y cyd â Gwasanaethau Cwnsela Medra i gynnig gwasanaeth cwnsela dynodedig, rhad ac am ddim a chyfrinachol, i holl ofalwyr maeth Ynys Môn.

Mae holl ofalwyr maeth gwasanaeth maethu Ynys Môn yn derbyn aelodaeth o'r Rhwydwaith Maethu yn rhad ac am ddim, ac fel rhan o'r pecyn croeso maent yn derbyn copi o'r cynhoeddiadau Signposts in Fostering. Cyfres o lyfrynau gwybodaeth ydynt sy'n darparu arweiniad i ofalwyr maeth newydd a phrofiadol mewn meysydd allweddol, gan gynnwys 'Treth incwm ac yswiriant cenedlaethol', 'Yswiriant' a 'Budd-daliadau'. Mae'r Rhwydwaith Maethu'n caniatáu mynediad at gyfleoedd dysgu a hyfforddi rhad ac am ddim, llinell gyngor maethu ac unrhyw fentrau eraill a ddatblygir gan y sefydliad.

Gall gofalwyr maeth gael mynediad at addysg, cyngor a gwybodaeth gan y Cydlynydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal a chyngor a gwybodaeth ynghylch iechyd gan y Nyrs Glinigol Arbenigol.

Mae pob plentyn sy'n derbyn gofal yn cael asesiad iechyd a ysgogir gan y nyrs glinigol arbenigol, a fydd yn nodi unrhyw anghenion iechyd, a bydd y nyrs yn eu cyfeirio at arbenigwyr yn ôl yr angen.

Wrth chwilio am ofalwyr maeth i ofalu am ein plant, mae gwasanaeth maethu Cyngor Sir Ynys Môn yn defnyddio'r holl wybodaeth a ddarperir i asesu sgiliau a gallu'r gofalwyr maeth i ddiwallu anghenion diwylliannol, ieithyddol a chrefyddol y plant.

Adran 5

Sut rydym yn ymgynghori â'n plant a'n gofalwyr maeth

Mae gan wasanaeth maethu Cyngor Sir Ynys Môn amrywiaeth o ddulliau a ddefnyddir i ymgynghori â'n gofalwyr maeth a phlant, yn unigol ac ar y cyd.

Adolygiadau Blynyddol Gofalwyr Maeth - rydym yn rhoi cyfle i blant yn y teulu maeth roi adborth ynghylch yr hyn y maent yn ei hoffi am fyw gyda'u teulu maeth a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi. Rydym hefyd yn gofyn i blant y gofalwyr maeth eu hunain fynegi eu barn am fod yn deulu maeth cymeradwy, ac rydym yn gofyn i'r gofalwyr maeth fynegi eu barn. Rydym yn annog sylwadau am y gwasanaeth maethu ehangach, yn ogystal â'u barn bersonol. Ar hyn o bryd, cesglir gwybodaeth drwy ddefnyddio ffurflen ymgynghori sy'n cael ei dosbarth i'w chwblhau cyn yr adolygiad, er mwyn iddynt gyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau am y gwaith maethu y maent yn ei wneud a'r cymorth a dderbyniwyd gan y gwasanaeth maethu.

Fforwm Gofalwyr Maeth Ynys Môn – Mae gofalwyr maeth Cyngor Sir Ynys Môn yn derbyn gwahoddiad i fynychu Fforwm Gofalwyr Maeth Ynys Môn, ac mae'n gyfle i ofalwyr maeth gyfarfod ag uwch reolwyr a'r aelod etholedig sy'n gyfrifol am faethu yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Rydym yn defnyddio'r fforwm i ddarparu diweddariadau i ofalwyr maeth am datblygiadau yn y gwasanaeth maethu rhanbarthol, yn ogystal ag i ymgynghori ar gynigion ar gyfer datblygu'r gwasanaeth yn lleol. Sefydlwyd y fforwm yn 2014 ac mae'n cyfarfod bob chwarter.

Ymgynghoriad Blynyddol (Holiadur Sicrhau Ansawdd Gofalwyr Maeth) – mae'r gwasanaeth maethu'n dosbarthu holiadur blynyddol i'r holl ofalwyr maeth cofrestredig, yn eu gwahodd i rannu eu profiadau, eu meddyliau a'u safbwyntiau ar wahanol agweddau o'r gwasanaeth. Mae hyn yn amrywio o ba mor aml y maent yn cael cysylltiad ag aelodau'r tîm i ba mor fodlon ydynt â'r adolygiadau blynyddol neu'r cymorth tu allan i oriau. Mae'r holiadur yn ddi-enw a gellir ei gwblhau ar bapur neu yn electronig trwy ddefnyddio dolen ar-lein. Defnyddir canlyniadau'r holiadur i gyfrannu at adroddiad Ansawdd Gofal y gwasanaeth ac i lywio'r gwaith o wella a datblygu'r gwasanaeth.

Ymgynghoriad cenedlaethol a rhanbarthol – rydym yn defnyddio e-bost i rannu ceisiadau ymgynghori gan bartneriaid allanol amrywiol yn ogystal ag ymarferwyr mewnol e.e. y Fframwaith Maethu Cenedlaethol a'r Fforwm Maethu Cenedlaethol. Mae gofalwyr maeth yn cyfrannu'n uniongyrchol at yr ymgynghoriadau hyn, fel arfer trwy ddolen a rennir gan ddefnyddio rhestr ddosbarthu e-bost.

Ymgynghori â phlant – mae Cyngor Sir Ynys Môn yn sefydlu grŵp ymgynghori gyda Voices from Care i roi llais iddynt, a chaniatáu iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch materion sy'n bwysig iddynt. Ar hyn o bryd, rydym yn y broses o sefydlu gweithgor ar gyfer pobl ifanc 13 oed a hŷn er mwyn datblygu strategaeth plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal ac i roi llwyfan iddynt sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu perthynas rhyngddynt a'u rhieni corfforaeth yn Ynys Môn.

Cwynion a chynrychiolaeth
Dylai plant, eu gofalwyr maeth, a phobl eraill y mae maethu'n effeithio arnynt fedru gwneud sylwadau effeithiol, gan gynnwys cwynion, ynghylch unrhyw agwedd o wasanaethau maethu'r Cyngor, pa un ai ydynt yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan yr Asiantaeth, neu gan Asiantaeth dan gontract.

Mae'r holl ofalwyr maeth a phobl ifanc sy'n derbyn gofal sy'n defnyddio'r gwasanaeth maethu'n derbyn gwybodaeth ysgrifenedig ac ar lafar ynghylch y broses gwynion. Cyfrifoldeb yr arweinydd

ymarfer Maethu yw monitro cwynion.

Yn y lle cyntaf, dylai unrhyw berson sy'n anhapus â'r gwasanaeth y maent wedi'i dderbyn gan y gwasanaeth maethu siarad â'r staff sydd wedi bod yn gweithio gyda nhw, neu eu rheolwr. Fodd bynnag, os nad ydynt yn teimlo y gallant siarad â nhw, neu os ydynt yn credu nad ydynt wedi ymdrin â'u pryder yn foddhaol, dylent gysylltu â'r swyddog Gofal Cwsmer:

Ms Sophie Shanahan,
Swyddog Cwynion Dynodedig,
Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol,
Swyddfeydd y Cyngor,
Llangefni,
Ynys Môn,
LL77 7TW.

Adran 6

Manylion cyswllt defnyddiol

Arolygiaeth Gofal Cymru

0300 7900 126

ciw@gov.wales

Swyddfa Llywodraeth Cymru

Sarn Mynach

Cyffordd Llandudno

LL31 9RZ

Cyngor Gofal Cymdeithasol

Tŷ South Gate, Wood Street, Caerdydd CF10 1EW

Ffôn: 0300 3033 444

Comisiynydd Plant Cymru

Ty Ystumllwynarth, Llys Siarter, Phoenix Way,

Llansamlet, Abertawe SA7 9FS

Ffôn: 01792 765600

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed, Pen-y-bont ar Ogwr.

CF35 5LJ

Ffôn: 0300 7900 203